# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| |
|---|
| **Pwyllgor:** Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** 9 Mai 2011 |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol Perthnasol:** Lynn Ball |
| **Comisiynwyr Perthnasol:** Byron Davies |

## Y diweddaraf ar adrodd ar absenoldeb salwch a threfniadau Contractyddol Iechyd Galwedigaethol

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

Rhoi'r manylion diweddaraf i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn dilyn adroddiad a gyflwynwyd iddo'n gynharach ar y Cynllun Gweithredu AD.

### 2.0 Materion ar gyfer Sgriwtini

Ystyried yr atborth a gyflwynwyd.

### 3.0 Cefndir

Mae'r ddwy eitem hyn yn llunio rhan o'r prosiectau strategol a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu AD.

**Carys Edwards**
**Rheolydd Gwasanaethau AD**
**Gwasanaethau Cyfreithiol**

*Ebrill 2011*

**Atodiadau**

Diweddariad ar Ffurf Crynodeb

**Papurau Cefndir**

Cynllun Gweithredu AD

## Y diweddaraf ar adrodd ar absenoldeb salwch a threfniadau contractyddol Iechyd Galwedigaethol

Cafodd adrodd ar absenoldeb salwch a'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol eu nodi fel dau brosiect strategol ar wahân yn y cynllun gweithredu AD a gyhoeddwyd yn ystod haf 2010 gan ymgynghorydd annibynnol ac a gytunwyd arno gyda'r GAS.

Mae'r ddau brosiect yn ffurfio'r rhan o'r amserlen tymor hwy ar gyfer y cynllun gweithredu AD gyda mis Gorffennaf 2011 wedi'i bennu fel dyddiad cwblhau. Mae'r ddau felly yn eitemau sydd 'ar y gweill' er y gwnaed llawer o gynnydd mewn cyfnod byr o amser yn achos y ddau brosiect, sydd, ill dau, yn rhai gweddol gymhleth.

### Adrodd ar absenoldeb salwch

Yr Awdurdod oedd yr unig Awdurdod allan o'r 22 yng Nghymru i fethu dychwelyd ffigyrau am absenoldeb salwch yn seiliedig ar gymarebau staffio amser llawn cyfatebol am nifer o flynyddoedd. Mae'r gwasanaeth AD wedi bod yn gweithio ers Medi 2010 gyda'r adain gyflogau drwy'r uned TG i geisio datrys y broblem. Rhagwelir y bydd y problemau hyn wedi'u datrys erbyn diwedd Mawrth 2011 er y bydd gwaith yn parhau i wella'r modd y mae gwasanaethau'n trin staff achlysurol a staff dros dro ac, o ganlyniad, byddir yn cofnodi oriau'r aelodau hynny o staff, arfer sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod yr adroddiadau ynghylch absenoldeb salwch yn gywir.

Mae'r polisi salwch ei hun wedi cael ei adolygu gydag amserlenni tynnach a llinellau atebolrwydd cliriach ar gyfer rheoli absenoldeb salwch. Dylai'r gwaith hwn fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd Chwefror / dechrau Mawrth 2011. Bydd wedyn yn cael ei ymestyn i reolwyr drwy sesiynau briffio a hyfforddiant lle mae angen hynny.

Gwnaed gwaith hefyd i ddarparu gwybodaeth fwy ystyrlon ar gyfer reolwyr ynghylch absenoldeb ac mae wrthi'n cael ei dreialu ar hyn o bryd e.e. nifer y staff amser llawn cyfatebol yn erbyn nifer darged o ddiwrnodau, y 30 achos o absenoldeb sydd ar y brig yn yr awdurdod ac ati.

### Trefniadau Contract Iechyd Galwedigaethol

Ar hyn o bryd, mae sawl elfen i'r trefniadau iechyd galwedigaethol yn CSYM. Roedd elfen y cyfeiriwyd ati gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ymwneud â'r contract gydag Ymddiriedolaeth Iechyd Betsi Cadwaladr.

Mae’r contract cyfredol wedi cael ei adolygu ond nid yw’r gwaith yn gyflawn eto.  Mae casgliadau cychwynnol yr adolygiad hwnnw yn nodi gwelliannau posibl i’r gwasanaeth petai’r sefydliad yn aros gyda’r Ymddiriedolaeth.  Mae gwelliannau o’r fath yn cynnwys amrediad o faterion megis ansawdd, ymatebolrwydd ac ‘addas i’r pwrpas’ ynghyd â chost.  Bydd y contract llafar sy’n bodoli rhwng yr Awdurdod a’r Ymddiriedolaeth yn cael ei adolygu yn Ebrill / Mai 2011 a rhydd hynny gyfle i ni adolygu’r holl elfennau ar y gwasanaeth.  Fodd bynnag, mae opsiynau eraill ar gyfer darparu’r gwasanaeth hwn e.e. rhannu gwasanaethau ac ati.

Cychwynnwyd ymchwiliadau gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â’r opsiynau ar gyfer rhannu gwasanaeth.  Trafodwyd y mater yn ffurfiol mewn cyfarfod o’r Grŵp HRD Gogledd Cymru ar 1 Chwefror.  Rhagwelir y cymer y trafodaethau hyn beth amser oherwydd mae pob un o’r chwe Awdurdod mewn sefyllfa wahanol e.e. mae rhai newydd lofnodi contract newydd gyda’u darparwr cyfredol, daw contractau eraill i ben ym mis Hydref 2011 ac mae gan eraill wasanaeth mewnol y byddant efallai’n dymuno ei gynnig.  Yn y cyfamser, efallai y byddai’n well parhau gyda’r trefniadau cyfredol hyd oni fedrir datblygu’r trafodaethau gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru yn frîff prosiect clir.

**Carys Edwards**

**Rheolydd Gwasanaethau AD**